# PWYLLGOR PENSIYNAU, 17.03.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Hywel E Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dafydd Meurig, a Peredur Jenkins

Swyddogion:- Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Stephen Churchman, W Tudor Owen, John P. Roberts

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Peter Read. Nodir yr ymddiheuriadau uchod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20fed o Ionawr 2014 fel rhai cywir.

## 5. YMATEB Y CYFLOGWYR I'R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO.

Adroddwyd i'r Pwyllgor ar yr 20fed o Ionawr 2014, bod gofyn statudol i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido erbyn 31.3.2014. Fel rhan o'r adolygiad, mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorydd y gronfa ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

Ar 24ain o Ionawr 2014 anfonwyd llythyr ymgynghorol i bob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, i actiwari ac ymgynghorydd y Gronfa ac i gynrychiolwyr Unsain, TGWU *(Transport and General Workers Union)* a'r GMB *(Undeb Gyffredinol Prydain,)* yn ymgynghori ar y polisïau a gytunwyd arnynt. Roedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben 28.2.2014.

Adroddwyd na dderbyniwyd unrhyw ymateb. Eglurwyd er efallai fod hynny yn siom, nad oedd yn syndod, gan fod trwch y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ddi-newid o'r

fersiwn flaenorol, ac elfennau sy'n newid, megis rhagdybiaethau actiwaraidd, wedi'u egluro i a'u trafod gan gyflogwyr yng nghyfarfod Prisiant y Gronfa ar 07/11/2013.

**PENDERFYNWYD**
**Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) arfaethedig.**

## 6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2014/15.

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn argymell i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif arian cyffredinol y Cyngor o Ebrill laf 2014 ymlaen a chymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol.,

Yn unol â chyfarwyddyd statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd am 2014/15, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn.

Yng nghyd-destun buddsoddi arian, amlinellwyd mai'r prif fanteision dros uno trefniadau llif arian y gronfa bensiwn a'r Cyngor yw i ddenu llog uwch, isafu costau banc ac i osgoi dyblygu gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai *Arlingclose* yw ymgynghorwyr annibynnol y Cyngor ers 2009. Mynegwyd bod yr Adran Cyllid yn hapus iawn gydag ansawdd y gwasanaeth a bod yr ymgynghorwyr yn cyfathrebu mewn modd clir a dealladwy. Atebwyd ymhellach fod cytundeb y Cyngor gyda'r ymgynghorwyr wedi ei adnewyddu wedi cyfnod o dair blynedd yn 2012, a bydd yn cael ei adolygu eto ymhen blwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol.**
**b) Gwneud cais i'r Cyngor ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif arian cyffredinol y Cyngor o Ebrill laf 2014 ymlaen.**

## 7. STRWYTHURAU LLYWODRAETHU CPLIL - BIL PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Adroddodd y Rheolwr Buddsoddi ar y newidiadau sylweddol sydd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fydd yn dod i rym Ebrill 2014. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu deddfu o dan y Bil Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus o ganlyniad i adolygiad yr Arglwydd Hutton o'r CPLIL a'r argymhellion yn ei adroddiad.

Yn sgil y newidiadau hyn ymddengys newidiadau yng ngofynion llywodraethu, rôl a strwythur y Byrddau Pensiwn Lleol yn benodol. Y sefyllfa bresennol yng Ngwynedd yw bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel 'Rheolwr y Cynllun' a'r Pwyllgor Pensiynau yn gyfrifol am gynorthwyo'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth. Ymddengys bydd yr adolygiad yn argymell Bwrdd Pensiwn, gyda dyletswydd benodol o graffu gwaith Rheolwr y Cynllun yn hytrach na chefnogaeth weithredol.

Adroddwyd nad oedd manylion terfynol yr adolygiad wedi eu rhyddhau, ond bod gofyn i'r Pwyllgor ystyried sut y dylid gweithredu'r trefniadau hyn yn ymarferol yng Ngwynedd, er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd y strwythur terfynol yn un statudol ac felly bydd rhaid i Wynedd ddatrys modd o ymateb i'r newid.

Opsiynau posib:

i) Creu Bwrdd Pensiwn i graffu a chynnal Panel ychwanegol i reoli gweinyddiaeth a buddsoddiadau. Buasai angen gwahodd aelodau'r gronfa a'r undebau i enwebu aelodau ar gyfer y Bwrdd gan fod gofyn i'r aelodaeth fod yn gyfartal.
ii) Parhau gyda'r drefn bresennol a diwygio'r cyfansoddiad er mwyn galluogi cynrychiolwyr gweithwyr bod yn aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau

**PENDERFYNWYD**

**a) Aros am fanylion terfynol yr adolygiad a gwneud penderfyniad o'r hyn fydd ei angen.**
**b) Dirprwyo'r hawl i swyddogion ymateb i'r ymgynghoriad, gan geisio dylanwadu i**
   **i) isafu'r newidiadau posib i'r drefn bresennol.**
   **ii) barhad yn y gyfundrefn bresennol, effeithiol sydd gan Wynedd.**

*****************

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sylwadau yn y wasg am gwymp posib yn y farchnad stoc, cynigwyd y buasai pryderon yr Aelod yn cael eu hamlygu mewn llythyr at Hymans (ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol).

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:00pm